

MAE DUW YN ANGHYMHAROL A SANCTAIDD



Dydd Mawrth 2af

Pan yn yr ysgol gynradd roedd cystadleuaeth barhaus yn ein dosbarth – pwy oedd gyda'r esgidiau mwyaf cŵl. Bob wythnos byddai rhywun yn dod gyda thrainers newydd a oedd yn well ac yn fwy disglair na gweddill y dosbarth. Byddem yn treulio mwy o amser yn archwilio ein hesgidiau nag yn edrych ar ein llyfrau, ond un diwrnod, trodd pob dim wyneb i waered pan gerddodd Mark Kitchen i mewn i'r dosbarth yn gwisgo pâr o Nike Airs. Nid oeddem erioed wedi gweld esgidiau o'r fath a oedd yn cynnwys ymysg pethau eraill bwmp a oedd yn caniatáu iddo wthio aer i bocedi o fewn yr esgid a oedd yn ôl pob golwg yn caniatáu iddo neidio'n uwch - roedd ein meddyliau wedi ffrwydro (yn eironig, felly hefyd y balwms aer o fewn ei esgidiau o fewn ychydig wythnosau)! Ar y pryd, fe roeddem i gyd yn rhyfeddu ar ei esgidiau gwyn pefriog mewn cenfigen llwyr gan gydnabod nad oedd yr hyn a oedd gennym ar ein traed yn cymharu.

Er fy mod bellach yn hŷn, ac yn anffodus mae'n rhaid imi adael yr esgidiau cŵl i'm plant, rwy'n aml yn gweld yr un tueddiad yn fy nghalon o fod eisau rhywbeth mwy a gwell. Mae'n ymddangos ei fod wedi'i wifro i'n calonnau fel bodau dynol - rydyn ni bob amser yn chwilio ac ymdrechu am fwy. Rydyn ni'n prynu car, ond yn sydyn yn cael ein llygad-dynnu gan geir gwell. Rydyn ni'n ailaddurno ystafell yn y tŷ, ond rydyn ni'n dechrau meddwl am yr ystafell nesaf yn gyflym. Os ydym yn onest, yn rhannau tywyllaf a mwyaf pechadurus ein calonnau gallwn hyd yn oed deimlo'r un ffordd am yr anrhegion gorau a mwyaf rhyfeddol y mae'r Arglwydd wedi'u rhoi inni. Mae fel nad oes unrhyw beth yn medru gwirioneddol ein bodloni wrth i ni chwilio am rywbeth gwell... neu rywbeth gwahanol.

Mae adnod heddiw yn galonogol ac yn ddychrynlyd wrth iddo dynnu ein sylw at wirionedd arall am Dduw. Mae'n ddigymar!

Ef yw'r 'Duw tragwyddol ... yr ARGLWYDD a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy' (Eseia 40:28). 'Ef yw'r Duw byw a'r brenin tragwyddol; y mae'r ddaear yn crynu rhag ei lid, ac ni all y cenedloedd ddiodef ei ddicter' (Jeremeia 10: 10b). Pwy sydd fel yr ARGLWYDD ein Duw yn y nefoedd neu ar y ddaear, yn gosod ei orseddfainc yn uchel a hefyd yn ymostwng i edrych yn isel (Salm 113: 5-6)? Mae Duw yn gwbl annealladwy yn ei fawredd ac ni all neb ddod yn agos ato. Rydyn ni'n gweld hyn yn arbennig yn ei sancteiddrwydd fel mae Datguddiad 4:8 yn dweud wrthym, 'I'r pedwar creadur byw yr oedd chwe adain yr un, ac yr oeddent yn llawn o lygaid o'u hamgylch ac o'u mewn, a heb orffwys ddydd na nos yr oeddent yn dweud: "Sanct, Sanct, Sanct yw'r Arglwydd Dduw hollalluog, yr hwn oedd a'r hwn sydd a'r hwn sydd i ddod!"

Mae'r gwirionedd hwn am Dduw yn gwbl ddychrynlyd inni fodau dynol pechadurus sydd mor ddi-sanctaid ag y gallem fod. Dylai wneud i ni grynu wrth i ni gydnabod y trwbl cosmig uffern-ddyfodol yr ydym ni ynnddo. Ni allwn ond gweiddi fel y gwnaeth Eseia "Gwae fi! Y mae wedi darfod amdana! Dyn a'i wefusau'n aflan ydywyf, ac ymysg pobl a'u gwefusau'n aflan yr wyf yn byw; ac eto, yr wyf â'm llygaid fy hun wedi edrych ar y brenin, ARGLWYDD y Llwoedd" (Eseia 6: 5).

Ac eto, ar yr un pryd, mae'r gwirionedd hwn yn llawn gobaith. Rydym eisoes wedi nodi bod ein calonnau'n dyheu am rywbeth mwy a gwahanol, rhywbeth na all y byd hwn ei roi inni. A allai felly fod ein calonnau yn dyheu am y Duw Sanctaid hwn?

Mae'r Beibl yn ein dysgu nad yw ein calonnau'n fodlon nes i ni ddod o hyd i Dduw - mae twll yn ein heneidiau na ellir ond ei lenwi gan y Duw sanctaid a thragwyddol sy'n anghymarus ac yn annealladwy. Ef yw'r un a'n creodd ni, ac ynnddo Ef rydyn ni'n dod o hyd i'n cartrefi. Gadewch inni felly agosáu heddiw at ein Duw Sanctaid, trwy Grist ein cyfryngwr, gan gydnabod mai Ef yw'r hyn y mae ein calonnau'n chwilio amdano. **Ni fydd unrhyw beth arall byth yn cymharu, anghofiwrch am y Nike Airs a phob peth arall y gall y byd hwn ei roi, gallwn agosáu at y Duw digymar a sanctaid trwy Grist Iesu!**

*I bwy, ynteu,
y cyffelybwch
Dduw? Pa lun a
dynnwch ohono?*

Eseia 40:18

CWESTIYNAU

Ym mha ffyrdd y mae Duw yn wahanol ac yn well na'r cyfan a welwn ar y Ddaear hon?

Sut mae Sancteiddrwydd Duw yn ddychryn ac yn dod â gobaith i chi?

DARLEN PELLACH

Eseia 6, Salm 96

GWEDDI

Defnyddiwch Salm 96 fel sail i weddi

Gweddiwch y byddai'r Ysbryd yn agor eich llygaid i weld pa mor ddigymar yw Duw.

Gweddiwch y byddai sancteiddrwydd yn nodwedd o'r Eglwys yn ein gwlad.

Gweddiwch y byddai'r Ysbryd yn dangos i bobl pa mor fyrdymor a heb fod yn foddhaol y gall pleserau'r byd hwn fod.



**MUDIAD
EFENGYLAIDD
CYMRU**

YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

**GALLWN OBEITHIO YN
NUW OHERWYDD EI FOD YN
ANGHYMHAROL**